# Y Pwyllgor Cyllid

## Cofnodion FIN (3)-11-08

**Dyddiad y Cyfarfod: Dydd Iau, 10 Gorffennaf 2008**
**Amser y cyfarfod: 9.30 - 11.30am**
**Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell bwyllgora 3**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Angela Burns (Cadeirydd) Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alun Ffred Jones, Arfon
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Nick Ramsey, Mynwy
Jenny Randerson, Canol Caerdydd
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Y Gwasanaeth Pwyllgorau

John Grimes, Clerc
Abigail Phillips, Dirprwy Glerc

### Eitem 1: Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Nick Bourne AC a Lynne Neagle AC. Yr oedd Nick Ramsey AC yn diprwyo yn lle Nick Bourne a Lorraine Barrett AC yn diprwyo yn lle Lynne Neagle.

1.2 Dymunodd y Cadeirydd ddymuniadau gorau'r Pwyllgor i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflawni Gwasanaethau Cyhoeddus a oedd bellach wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod o salwch. Nododd ymrwymiad y Gweinidog i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid yn nhymor yr Hydref i drafod Ymchwiliad y Pwyllgor i Bartneriaethau Cyhoeddus Preifat.

### Eitem 2: Ymchwiliad i ariannu'r Cyfnod Sylfaen: adroddiad drafft y Pwyllgor

**Papur:**

FIN(3) 11-08 (p1) adroddiad drafft

2.1 Diolchodd Alun Davies i'r Cadeirydd am ei hymdriniaeth fedrus o'r adroddiad drafft. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad hwn.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i addasu brawddeg olaf paragraff 19 i ddarllen 'Ymddengys fod hwn yn fethiant systematig sydd angen sylw'. Yn yr un modd dylid diwygio para 38.

### Eitem 3: Cyllideb atodol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007-08: adroddiad drafft

**Papur:**

FIN(3) 11-08 (p2) adroddiad drafft

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft gyda dau newid gramadegol bach i baragraff 7.

3.2 Mynegodd y Cadeirydd ddiolch y Pwyllgor i Eleanor Roy, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, am y papur briffio ardderchog yr oedd wedi'i ddarparu ar ddulliau gweithredu eraill i Fenter Cyllid Preifat (PFI).

**Penderfynodd y Pwyllgor gynnal gweddill y cyfarfod yn breifat yn unol â Rheol Sefydlog 10.37 (vi)**

### Eitem 4: Ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus Preifat:

**a) Adroddiad interim drafft**

**Papur:**

FIN(3) 11-08 (p3) adroddiad interim drafft

4a).1 Cytunodd y pwyllgor ar welliannau i'r adroddiad drafft.

**b) Modelau eraill a chamau nesaf i'w cymryd**

4b.1 Ystyriodd y Pwyllgor ei gamau gweithredu nesaf.

**Y Gwasanaeth Pwyllgorau**
**Gorffennaf 2008**